

1

Cefndir

Oherwydd natur y digwyddiad, cafodd ei gytuno yng nghyfarfod Grŵp Adolygu Ymarfer Aml-asiantaeth Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg bod y meini prawf wedi eu bodloni ar gyfer cynnal yr adolygiad estynedig. Roedd Oedolyn W yn 96 oed, ac roedd hi'n byw yn ei chartref ei hun gyda'i mab 70 oed, Oedolyn X, sef ei phrif gynhaliwr (gofalwr). Ar 27/04/22 cynhaliwyd cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth, ond fe'i gohiriwyd hanner ffordd drwedd ar ôl i bryderon gael eu codi ynghylch diogelwch Oedolyn W ac Oedolyn X. Defnyddiodd yr heddlu rym i sicrhau mynediad i'r eiddo. Darganfuwyd oedolyn W wedi marw yn y gwely, yn gorwedd ar ddillad gwely budr yn gwisgo dillad budr. Nodwyd bod Oedolyn W wedi marw ers peth amser.



ADOLYGIAD YMARFER OEDOLION ESTYNEDIG

OEDOLYN W



2

Cyd-destun

Y cyfnod amser a adolygwyd oedd o fis Mehefin 2021 hyd at ddyddiad marwolaeth Oedolyn W ym mis Ebrill 2022. Roedd yr amserlen hon yn cynnwys dau gyfnod pan oedd y Garfan Gofal a Chymorth yn ymwneud â'r aelwyd (Mehefin 2021 tan Dachwedd 2021 ac Ionawr 2022 hyd at adeg marwolaeth Oedolyn W). Cyn mis Awst 2020 nid oedd Oedolyn W nac Oedolyn X yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol ac ni fu unrhyw gysylltiad blaenorol â nhw. Nid oedd unrhyw deulu yn gysylltiedig, a chodwyd pryderon am eu lles i'r gwasanaethau cymdeithasol gan gymdogion a'r gweinidog lleol. Roedd siop leol yn dosbarthu siopa bwyd wythnosol i Oedolyn W. Roedd yn amlwg bod asiantaethau lluosog yn ymwneud ag Oedolyn W, a'i mab, fodd bynnag, roedd ymgysylltu ag Oedolyn W, ac oedolyn X yn hynod o anodd i bob asiantaeth oedd yn ymwneud â nhw.

7

Datblygu Systemau ac Ymarfer

Pob gweithiwr proffesiynol i gofnodi gwybodaeth fanwl am gleifion / achosion sy'n dileu rhagdybiaethau, yn gwirio, ac yn herio canfyddiadau i ddod o hyd i ffeithiau a chytuno arnyn nhw a'u cofnodi gan ddefnyddio dulliau priodol.

Mae gweithwyr proffesiynol i'w hannog i gynnwll cyfarfodydd aml-asiantaeth, rhannu gwybodaeth a thrin yr achos mewn ffordd gyfannol.

Dylid asesu galluedd meddyliol claf os oes unrhyw amheuaeth a phan fo person arall yn ceisio gwneud penderfyniad ar ei ran. Dylai fod tystiolaeth bod cytundeb Atwrneiaeth Arhosol ar waith.

3

Pwyntiau Dysgu Allweddol

- 1:** Gweithwyr proffesiynol i ddilyn hyfforddiant gloawi ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- 2:** Mae angen i'r Bwrdd Diogelu ystyried hyfforddiant ymwybyddiaeth ychwanegol ar y Polisi Hunan-esgeuluso, y broses uwchgyfeirio a'r paneli hunan-esgeuluso a gynhelir.
- 3:** Dylai rheolwyr gefnogi staff i gadw achosion yn agored lle mae risgiau sylweddol hyd yn oed os yw'r person yn amharod i ymgysylltu.
- 4:** Pob asiantaeth i godi ymwybyddiaeth o'u safonau proffesiynol a'u dyletswyddau o dan eu Codau Ymarfer mewn perthynas ag eglurder gwneud penderfyniadau, goruchwyliaeth, gweithredoedd a gytunwyd a chofnodi gwybodaeth drwy ddulliau priodol.

6

Ymarfer effeithiol:

Tystiolaeth glir o gysondeb yn y dull gweithredu gan weithwyr cymdeithasol a thystiolaeth o drosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol rhwng gweithwyr cymdeithasol a charfanau.

Dyfalbarhad wrth geisio datblygu perthynas ag Oedolyn W a'i mab i adeiladu ar ymddiriedaeth a hyder.

Nodwyd a chychwynnwyd ffyrdd arloesol o weithio gyda'r gymuned leol.

Roedd tystiolaeth bod gweithwyr proffesiynol yn mynd gam ymhellach ac yn dangos dyfalbarhad wrth geisio ymgysylltu ag Oedolyn W ac Oedolyn X.

Roedd gweithiwr cymdeithasol, wedi defnyddio prosesau uwchgyfeirio, oherwydd pryderon am ddiffyg ymgysylltu.

Pwyntiau Dysgu Allweddol

- 8:** Arweinydd y Bwrdd Iechyd ar gyfer Meddygon Teulu ac arweinydd y Gwasanaeth Ambiwlans i adolygu'r broses o gofnodi'r penderfyniadau a'r cyfrifoldeb i nodi proses lle mae claf yn penderfynu peidio â chael ei dderbyn i'r ysbyty, er bod angen gofal meddygol brys arno.
- 9:** Meddygon Teulu a'r Gwasanaeth Ambiwlans i sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau, y camau gweithredu y cytunwyd arnyn nhw a chofnodi gyda nodiadau/cynllun gofal y claf yn eglur.
- 10.** Asiantaethau i werthfawrogi eu rolau a chyfrifoldebau ei gilydd a chyfyngiadau'r ddeddfwriaeth, o ran Gwiriadau Lles yr Heddlu.

Pwyntiau Dysgu Allweddol

- 5:** Wrth ddarparu gofal clinigol, rhaid i feddygon teulu ragnodi cyffuriau, triniaeth neu bresgripsiynau rheolaidd, dim ond pan fydd ganddyn nhw wybodaeth ddigonol am iechyd y claf ac maen nhw'n fodlon bod y driniaeth, gan gynnwys cyffuriau, yn gwasanaethu anghenion y claf.
- 6:** Meddygon Teulu i edrych y tu hwnt i'r anghenion iechyd uniongyrchol ac ystyried eu claf yn gyfannol, lle mae tystiolaeth o eiddilwch ac anghenion iechyd heb eu diwallu.
- 7:** Mae angen i'r Practis Meddyg Teulu (a nodir yn yr adolygiad yma) gael polisi ffurfiol lle mae pryderon ac atgyfeiriadau gan bob asiantaeth ynghylch claf yn cael eu cofnodi yng nghofnod y claf ac yn cael eu trin mewn modd amserol a modd priodol y tu mewn a'r tu allan i oriau swyddfa arferol.